

# Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

5 Rhagfyr 2016

### Y cefndir

1. Ar 10 Tachwedd 2016, gosododd Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol ("y Bil") sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 15 Tachwedd 2016, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'w ystyried. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, pennodd y Pwyllgor Busnes 8 Rhagfyr 2016 ar gyfer cyflwyno adroddiad.
3. Mae dadl wedi'i threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr 2016 ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

### Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

4. Mae paragraffau 3-5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Yn gryno, amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw "gwella'r drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymorth i blant sy'n derbyn gofal ac a oedd gynt yn derbyn gofal yng Nghymru a Lloegr; hwyluso gwell dysgu am ddulliau effeithiol o amddiffyn plant a darpariaeth ehangach gofal cymdeithasol i blant yn Lloegr a galluogi cyfundrefn reoleiddio newydd i gael ei sefydlu'n benodol ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn Lloegr."

### Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

5. Yn fyr, ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer gwelliant i'r Bil sy'n darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wahardd cyflogwr perthnasol rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd am swydd gofal cymdeithasol i blant am ei bod yn ymddangos i'r cyflogwr hwnnw fod yr ymgeisydd wedi gwneud datgeliad gwarchoddedig. Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn y gellir gwneud unrhyw reoliadau ar gyfer swyddogaethau perthnasol ynghylch gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru.
6. Mae rhagor o fanylion am y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ym mharagraffau 6 i 15 o'r Memorandwm.

### Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

7. Mae paragraff 16 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol, yn hytrach nag mewn darn o ddeddfwriaeth y Cynulliad. Mae'n nodi:

---

“Byddai gwneud darpariaethau i Gymru yn y Bil yn rhoi’r un amddiffyniad i ymgeiswyr am swyddi gofal cymdeithasol plant gyda chyflogwyr perthnasol yng Nghymru â’r rhai yn Lloegr a’r Alban. Gallai unrhyw oedi wrth weithredu darpariaethau hyn yng Nghymru beri anfantais i weithwyr yma. Mae Llywodraeth Cymru’n credu felly y dylai’r darpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ag yn Lloegr a’r Alban.”

---

### Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

8. Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ein cyfarfod ar 23 Tachwedd 2016. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil ac, yn seiliedig ar y rhain, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno â’r Cynnig.
9. Fodd bynnag, mae un mater y mae'n rhaid inni dynnu sylw'r Cynulliad ato. Pe byddai Bil Cymru yn dod i rym fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, ni fyddai angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chynnwys y Memorandwm hwn. Y rheswm am hynny yw bod pwnc y Memorandwm hwn yn debygol o ddod o dan y cymal cadw 'Hawliau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol' (Atodlen 1 – Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) ac, fel y cyfryw, byddai y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y setliad newydd.